

# SYDNEY A GOLDA BOURNE



HOLOCAUST  
MEMORIAL  
DAY TRUST

Fe wnaeth Sydney a Golda Bourne (Baum gynt) achub bywyd un Almaenes Iddewig drwy gytuno i ofalu amdani fel rhan o'r rhaglen *Kindertransport*. Heddiw, mae Susanne Kenton a'i theulu'n cofio'r bobl a'i galluogodd i oroesi yn wyneb hil-laddiad a gormes.



'Mae'n rhaid ei bod hi'n anodd iawn iddyn nhw ymdopi.. fe fydda i'n fythol ddiolchgar iddyn nhw.'

Yn bedair ac yn ddwy oed, daeth Sydney a Golda i Lundain gyda'u teuluoedd ar ddechrau'r 20<sup>fed</sup> ganrif. Teiliwr oedd Sydney, ac roedd Golda'n ferch i deiliwr a oedd yn cael ei adnabod fel 'Stitcher' gan y trigolion lleol. Roedd y ddau'n fudwyr Iddewig o Rwsia, ac fe briodon nhw a gwneud bywyd iddyn nhw'u hunain yn y Deyrnas Unedig. Roedden nhw'n berchen ar siop ffrogiau fach yn Neasden. Roedden nhw'n bâr ifanc yn eu hugeiniau, gyda dau o blant bach, pan ddaeth Susanne Flanter i'w bywydau yn ceisio lloches rhag y Natsïaid.

Dioddefodd Susanne a'i theulu gydol *Kristallnacht*, a'r trais gwrth-semitiaidd cynyddol a oedd yn ysgubo ar draws yr Almaen ar drothwy'r Ail Ryfel Byd. Pan gyrhaeddodd hi Orsaf Waterloo, roedd hi ar ei phen

ei hun mewn gwlad estron, heb air o Saesneg.

Dim ar chwarae bach mae maethu ffoadur 13 oed, yn enwedig i rieni ifanc heb fawr o arian, ond nid oedd Sydney wedi dweud wrth Golda ei fod wedi cytuno i faethu Susanne. Wyddai hi ddim am y trefniant nes i Susanne lanio ar garreg y drws gyda Sydney. Yn eironig o debyg, nid oedd Susanne wedi dweud wrth ei rhieni ym Merlin ei bod wedi gofyn am gael mynd i Loegr tan y diwrnod y clywodd hi fod Sydney wedi cytuno i'w maethu. Bu Sydney a Golda yn rhieni maeth i Susanne o'r diwrnod y cyrhaeddodd hi Orsaf Waterloo i'r diwrnod y priododd hi ei gŵr, ar 8 Mehefin 1947.

Gydol y rhyfel, symudodd Sydney, Golda, eu dau blentyn bach a Susanne droeon wrth i'r bomiau ddinistrio Llundain. Mae Susanne yn gallu cofio byw mewn o leiaf chwe man gwahanol yn ystod y rhyfel. Fe adawon nhw Llundain yn gyfan gwbl ar un achlysur, a symud i Hove i ddianc rhag y bomiau. Yno fe welson nhw filwyr Prydeinig wedi'u hanafu yn dychwelyd o ymgyrch Dunkirk.

Estynnodd y Baumiad eu haelioni a'u caredigrwydd i rieni Susanne ym Merlin, drwy gytuno i fod yn warantwyr fel y gallen nhw ddod i'r Deyrnas Unedig a dianc hunllef yr Almaen Natsïaidd.



@hmd\_uk

[hmd.org.uk](http://hmd.org.uk)



[/hmd.org.uk](https://www.facebook.com/hmd.org.uk)

Byddai hyn wedi golygu talu swm sylweddol o arian. Fodd bynnag, roedd hi'n rhy hwyr i rieni Susanne, a gafodd eu halltudio o Ferlin. Ers hynny mae Susanne wedi dod i wybod bod ei rhieni wedi cael eu hanfon i Minsk, lle buon nhw farw.

Ar ôl y rhyfel, cafodd Sydney a Golda drydydd plentyn, ac fe newidion nhw'u henw o Baum i Bourne ymhen amser. Parhau i weithio yn y diwydiant dillad wnaeth Sydney nes iddo ymddeol. Bu farw Sydney ym 1987, a Golda yn 2009.

*'Ro'n i'n meddwl y dyten nhw gael eu cofio am achub fy mynyd i.'*

Fel un o blith rhyw 10,000 o blant a lwyddodd i ddianc yr Almaen Natsïaidd drwy'r rhaglen *Kindertransport*, mae stori Susanne yn ofnadwy o gyfarwydd: ni fyddai mwyafrif llethol u plant hyn yn gweld eu rhieni fyth eto. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, cofiwn y rhieni a gafodd eu gadael ar ôl, a chofiw'n aberth y rhai a estynnodd help llaw.

### **I wybod mwy:**

- Darllenwch hanes Susanne Kenton
- Darllenwch am [yr Holocaust](#)
- Darllenwch am [y Kindertransport](#)

